RHONDDA CYNON TAF

**CYNGOR RHONDDA CYNON TAF**

Cofnodion cyfarfod rhithwir y Pwyllgor Deddf Trwyddedu 2003 a gynhaliwyd ddydd Mawrth, 12 Mawrth 2024 am 4.30pm.

Cafodd y cyfarfod yma ei ffrydio'n fyw ac mae manylion i'w gweld yma.

**Cynghorwyr y Fwrdeistref Sirol:-**

Y Cynghorydd A Fox (Cadeirydd)

Y Cynghorydd G Stacey
Y Cynghorydd S Bradwick
Y Cynghorydd L Ellis
Y Cynghorydd G Holmes
Y Cynghorydd W Hughes
Y Cynghorydd S Powderhill
Y Cynghorydd T Williams

**Swyddogion oedd yn bresennol**

Ms R Hope, Pennaeth Diogelu'r Cyhoedd a Gwasanaethau Rheoleiddio
Ms K Trilloe, Rheolwr Diogelu Iechyd a Thrwyddedu
Mr O Williams, Uwch Gyfreithiwr – Materion Ymgyfreitha

**23 YMDDIHEURIADAU AM ABSENOLDEB**

Daeth ymddiheuriadau am golli'r cyfarfod oddi wrth Gynghorwyr y Fwrdeistref Sirol M Powell, A O Rogers a J Turner.

**24 DATGAN BUDDIANT**

**PENDERFYNWYD –** Yn unol â Chod Ymddygiad yr Aelodau, cafodd y datganiad o fuddiant personol canlynol ei wneud ynglŷn â'r agenda:-

Cynghorydd y Fwrdeistref Sirol G Holmes mewn perthynas ag eitem 4 ar yr agenda “Rydw i'n adnabod un o'r busnesau yn yr adroddiad”.

**25 DEDDF HAWLIAU DYNOL 1998 A'R DDEDDF TROSEDD AC ANHREFN**

**PENDERFYNWYD** nodi pan fydd Aelodau'n trafod y materion trwyddedu a chofrestru sydd ger eu bron, mae dyletswydd arnyn nhw i beidio â gweithredu mewn modd sy'n anghydnaws â'r confensiwn ar Hawliau Dynol a'r Ddeddf Trosedd ac Anhrefn.

**26 COFNODION**

**PENDERFYNWYD** cymeradwyo cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 12 Rhagfyr 2023 yn rhai cywir.

**27 ADOLYGIAD O DDEDDF TRWYDDEDU 2003 AC O DDEDDF GAMBLO**

**2005**

Cyflwynodd Pennaeth Diogelu'r Cyhoedd a Gwasanaethau Rheoleiddio yr adroddiad i'r Pwyllgor sy'n trafod materion perthnasol o ran Deddf Trwyddedu 2003 a Deddf Gamblo 2005 ar gyfer y cyfnod rhwng 27 Tachwedd 2023 a 25 Chwefror 2024, yn ogystal â materion atodol eraill sy'n deillio o gyfrifoldebau'r Pwyllgor.

Mae dadansoddiad o'r ceisiadau am Hysbysiadau Achlysuron Dros Dro yn nodi bod 44 wedi'u rhoi i safleoedd sydd â thrwydded eisoes, 42 wedi'u rhoi ar gyfer achlysuron yn y gymuned a 18 wedi'u rhoi i glybiau preifat. Cafodd Aelodau eu hatgoffa bod cyfnod y Nadolig wedi bod yn gyfnod prysur yn ôl y disgwyl o ran prosesu Hysbysiadau Achlysuron Dros Dro ar gyfer Clybiau ac Eiddo trwyddedig ond hefyd ar gyfer y gymuned ehangach. Yn ogystal â hyn, mae'r sector manwerthu yn aml yn cyflwyno ceisiadau i ymestyn oriau agor ac i fasnachu ar ddydd Nadolig. Mae nifer fawr o Ffeiriau Nadolig a gweithgareddau chwaraeon yn cael eu cynnal yn y gymuned tra bod safleoedd trwyddedig yn cyflwyno ceisiadau i ymestyn eu horiau ar gyfer gwerthu alcohol neu ar gyfer adloniant. Yn ogystal â hyn, mae mwy nag un eiddo wedi defnyddio'r broses Hysbysiad Achlysuron Dros Dro i gynnal achlysuron trwyddedig trau'u bod yn aros am eu ceisiadau am Drwydded Safle. Mae hyn o fudd i bawb gan ei fod yn caniatáu i i'r ymgeiswyr fasnachu ac yn caniatáu i'r Heddlu ac Adrannau Iechyd yr Amgylchedd gael cipolwg o sut y byddai'r ymgeiswyr yma'n rhedeg eu heiddo yn y dyfodol.

Rhoddodd y Pennaeth Diogelu'r Cyhoedd a Gwasanaethau Rheoleiddio wybod nad oedd unrhyw benderfyniadau wedi'u herio ers cyflwyno'r adroddiad diwethaf i'r Pwyllgor, a does dim penderfyniadau mewn perthynas ag Apeliadau nac unrhyw adolygiadau wedi'u gwneud yn ystod y cyfnod yma.

Cafodd yr Aelodau eu cyfeirio at adran 4.3 yr adroddiad, lle caiff arolygiadau o safleoedd a thor rheolau eu hamlinellu. Rhoddwyd gwybod mai'r lefel cyflawniad bresennol ar gyfer safleoedd wedi'u harolygu yw 89.25%.

Nodwyd ei bod hi'n bosibl y bydd eiddo sydd ddim yn cael ei ddefnyddio ym Mhontypridd yn cael ei ddefnyddio ar gyfer bar gwin gyda rhywfaint o seddau y tu fas i'r eiddo. Nid yw'r ymgeisydd yn bwriadu agor yn hwyr gyda'r nos ac mae'n bwriadu gweini bwyd tapas.

Cafodd Aelodau wybod bod trefnwyr Gŵyl Gelfyddydau Cwm Rhondda wedi cysylltu i gael cyngor cyn cynnal yr achlysur yn ystod yr haf. Dyma achlysur wedi'i hen sefydlu ac eleni y gobaith yw y bydd capasiti'r achlysur yn cynyddu er mwyn annog rhagor o bobl i ymweld ag ardal Treorci.

Cafodd Aelodau wybod bod eiddo trwyddedig yn ardal Hirwaun wedi ailagor dan berchnogaeth newydd, a'u bod nhw wedi holi am ymestyn y

Drwydded Eiddo bresennol, er hynny, nid oes cais wedi'i gyflwyno hyd yn hyn.

Rhoddodd y Pennaeth Diogelu'r Cyhoedd a Gwasanaethau Rheoleiddio wybod bod busnes lluniaeth hwyr yn y nos yn ardal Llanharan wedi cysylltu â'r Awdurdodau Cyfrifol am gyngor mewn perthynas â gwneud cais i ychwanegu gwerthu alcohol i'w yfed oddi ar y safle at y Drwydded Eiddo bresennol. Yn dilyn trafodaeth ynglŷn ag amodau, cafodd y cais yma ei gyflwyno a'i gymeradwyo.

Dywedwyd bod eiddo trwyddedig mawr yn ardal Trefforest wedi cysylltu â swyddogion trwyddedu am gyngor mewn perthynas ag ambell i achlysur y maen nhw wedi'u cynllunio gan ddefnyddio ardaloedd allanol. Hefyd, dydy'r eiddo ddim yn masnachu fel y maen nhw wedi gwneud yn y gorffennol ar hyn o bryd, maen nhw'n meddwl am ddulliau newydd o ddefnyddio'r lle sydd ar gael iddyn nhw er mwyn parhau i fod ar agor. Yn ogystal â hyn, yn dilyn trafodaeth, mae'n ymddangos fel bod y newid mewn tueddiadau cymdeithasu wedi eu gorfodi i newid fformat eu busnes.

Cafodd Aelodau wybod bod safle trwyddedig yn ardal Treorci yn destun cwynion parhaus, yn bennaf mewn perthynas â sŵn ac ymddygiad gwrthgymdeithasol ac mae'r partïon perthnasol yn ymwybodol o'r honiadau.

Cafodd Aelodau wybod bod Terry Stephens, Heddlu De Cymru, wedi mynychu nifer o gyfarfodydd Pubwatch ledled RhCT yn rhan o'i swydd fel Cynghorydd Diogelwch Gwrthderfysgedd. Cynhaliodd Terry sgwrs ddiddorol am Gyfraith Martyn. Dyma ddeddfwriaeth a fydd yn effeithio ar lawer o eiddo/safleoedd a'r ffordd y mae Awdurdod Lleol yn ymdrin ag achlysuron, cynllunio diogelwch a rhedeg busnesau.

Yn dilyn cais gan yr Heddlu, dywedwyd bod Swyddogion Trwyddedu wedi mynychu sawl eiddo yng Nghanol Tref Pontypridd i gynorthwyo mewn perthynas ag achosion o ddwyn o wahanol safleoedd trwyddedig. Hefyd, braf yw nodi bod pawb yn hapus i dderbyn cyngor ac arweiniad gan Swyddogion.

Rhoddodd Pennaeth Diogelu'r Cyhoedd a Gwasanaethau Rheoleiddio wybod bod safle trwyddedig yn ardal Aberpennar wedi cyflwyno cais i newid o fod yn dafarn i siop gyfleustra sy'n gwerthu alcohol i'w yfed oddi ar y safle. Nid yw'r eiddo yma wedi gweithredu ers nifer o flynyddoedd, ac mae'n gadarnhaol y bydd yr adeilad yma'n dod yn rhan o'r gymuned unwaith eto.

Hefyd, derbyniwyd cwyn trwy Crimestoppers mewn perthynas â nifer o droseddau gan gynnwys yfed dan oed mewn tafarn yn ardal Llanharan, a chynhaliwyd ymweliad ar y cyd, a rhoddwyd cyngor i'r eiddo. Hefyd, mae'n ymddangos fel bod y gŵyn wedi dod gan gwsmer anfodlon ac ni chymerwyd unrhyw gamau pellach.

Cafodd yr Aelodau wybod bod y cyfarfodydd Pubwatch arferol wedi'u cynnal yng Nghwm Rhondda, Cwm Cynon, a Thaf Elái, a'u bod yn cynrychioli cyfle cadarnhaol i Swyddogion rannu gwybodaeth, cyngor ac arweiniad.

Roedd yr Aelodau'n falch o glywed bod y newyddion bod yr Eisteddfod yn dod i Bontypridd eleni wedi arwain at lawer o grwpiau llai yn gwneud ymholiadau cychwynnol am gyngor i gynnal achlysuron lleol ar raddfa fach yn Rhondda Cynon Taf. Hefyd, caiff ymholiadau eu cofnodi a'u codi gyda'r Grŵp Cynghori ar faterion Diogelwch lle bo angen.

O ran adennill ffioedd blynyddol, cafodd Aelodau wybod bod talu ffioedd blynyddol yn parhau i fod ar y lefel ddisgwyliedig ar gyfer adeg yma'r flwyddyn. Mae deiliaid trwyddedau fel arfer yn gohirio talu tan ar ôl cyfnod y Nadolig. Cyflwynwyd hysbysiad atal trwydded dros dro i sawl eiddo am beidio â thalu, ac roedd hyn wedi arwain at daliadau ac felly cafodd yr hysbysiadau eu tynnu yn ôl.

Tynnodd Pennaeth Diogelu'r Cyhoedd a Gwasanaethau Rheoleiddio sylw Aelodau at adran 5.1 yr adroddiad a rhoddodd ddiweddariad iddyn nhw mewn perthynas â Deddf Gamblo 2005.

Cafodd Aelodau grynodeb o ganiatâd presennol mewn perthynas â phroffil masnachu safleoedd â thrwydded.

**28 TRAFOD CADARNHAU'R CYNNIG ISOD YN BENDERFYNIAD:**

**PENDERFYNWYD** bod y cyfarfod hwn yn cadw aelodau o'r wasg ac aelodau o'r cyhoedd allan o ystafell y cyfarfod, dan Adran 100A(4) o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972 (fel y'i diwygiwyd), yn ystod trafod yr eitem nesaf, ar y sail y byddai'n debygol o olygu datgelu gwybodaeth eithriedig yn ôl diffiniad paragraff 13 o Ran 4 o Atodlen 12A o'r Ddeddf.

**29 TRWYDDEDAU A CHOFRESTRIADAU A RODDWYD O DAN DDARPARIAETH PWERAU DIRPRWYEDIG YN YSTOD Y CYFNOD: 27.11.23 - 25.02.24**

Cyflwynodd Pennaeth Diogelu'r Cyhoedd a Gwasanaethau Rheoleiddio fanylion trwyddedau a chofrestriadau a gyhoeddwyd yn ystod y cyfnod rhwng 27 Tachwedd 2023 a 25 Chwefror 2024 i'r Pwyllgor.

**Daeth y cyfarfod yma i ben am 4.38pm**

**Y Cynghorydd A Fox**
**Cadeirydd.**